**FFURFLEN YMATEB – Cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys o 31/8/25, gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Mynach.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu rhanddeiliaid wneud sylwadau ar y prif gynnig, yr opsiynau amgen ac awgrymu opsiynau eraill.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

---

1. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cysylltiad â'r ysgol y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni?

☐ rhiant/ gofalwr neu warcheidwad ☐ darpar riant / gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr ☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned ☐ Cyngor cymuned

X Arall: nodwch os gwelwch yn dda Sefydliad: Cymdeithas yr Iaith

2. Rhowch unrhyw sylwadau ar y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys:

Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021 roedd 45% o boblogaeth Ceredigion gyfan wedi nodi eu bod yn siarad Cymraeg tra bod 49% o boblogaeth ward Melindwr yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg. Mae hynny wedi aros yn gyson dros y deng mlynedd ers y Cyfrifiad blaenorol.
Byddai cau yr ysgol yn cael effaith andwyol ar hynny.

Yn hytrach na chydweithio gyda'r ysgol a'r gymuned er mwyn sicrhau ei dyfodol mae'r cyngor yn ei thanseilio. Wrth adolygu ysgolion y sir rhaid i'r cyngor drafod yn agored a chydweithio gyda'r gymuned o ddechrau'r broses er mwyn cyrraedd datrysiadau fydd o fudd i'r cymunedau.

Yn lle hynny mae'r cyngor wedi ymweld â llywodraethwyr a phenaethiaid ysgolion a mynd ati i lunio cynnig i gau a gofyn wedyn i'r gymuned am syniadau amgen.

Mae trafod cau unrhyw ysgol yn creu ansicrwydd ymhlith rhieni a staff, felly mae dod at gymuned â chynnig i gau yr ysgol a gofyn iddynt gynnig opsiwn arall yn hynod niweidiol.

Mae llai o wariant mewn cymunedau gwledig yn gyffredinol gan fod llai o adnoddau yno i'w hariannu. Addysg trwy ysgol leol yw prif fuddsoddiad cynghorau mewn cymunedau gwledig tra bod ardaloedd mwy poblog yn derbyn buddsoddiad i bethau eraill ac yn aml yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer pob math o gynlluniau a darpariaeth. Mae'n rhesymol felly bod mwy o wariant ar ysgolion sy'n cynnig mwy nag addysg mewn cymunedau gwledig, gan y byddai llai o gyfanswm o wariant mewn ardaloedd gwledig o hyd.

3. A oes unrhyw opsiynau eraill y credwch y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Syr John Rhys, a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y Ddogfen Ymgynghori?

X Oes ☐ Nac oes

Os oes, amlinellwch yr opsiwn (opsiynau amgen):

Ni ddylai’r angen i gynnal ymgynghoriad er mwyn ffedereiddio unrhyw ysgolion gael ei ystyried fel gwendid nac yn rheswm digonol dros ddiystyru’r opsiwn.

Wrth drafod ffedereiddio dydy’r papur cynnig ddim yn sôn am allu’r ysgolion i ddefnyddio adnoddau ei gilydd i arbed arian ac i fanteisio ar gyfleusterau ei gilydd trwy symud rhwng yr ysgolion a galluogi plant oedran amrywiol i gael eu dysgu gyda'i gilydd fel cryfder i greu ffederasiwn.

Ni ystyrir chwaith y byddai ffederasiwn yn cryfhau cydweithio rhwng cymunedau ar raddfa fwy eang. Byddai creu cysylltiad addysgol rhwng cymunedau a’r ardaloedd cyfagos yn debygol iawn o arwain at ragor o gydweithio rhwng y cymunedau, fyddai’n creu cyfleoedd ac yn eu cryfhau.

Mae ffedereiddio yn cael ei drin fel opsiwn gweinyddol yn hytrach na fel cyfle i ysgolion a chymunedau gydweithio a ffynnu.

Does dim ystyriaeth i gynnwys Ysgol Penweddig mewn ffederasiwn. Byddai hyn yn ffordd o gryfhau’r dilyniant i addysg uwchradd Gymraeg gan nad yw pob disgybl yn mynd o Ysgol Syr John Rhys i ysgol uwchradd Gymraeg ar hyn o bryd. Byddai creu’r cysylltiad hwnnw yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai pob ysgol gynradd yn y ffederasiwn yn mynd i Ysgol Penweddig.

Does dim rhaid cau yr ysgol er mwyn creu Hwb Cymunedol. O ffedereiddio neu o gadw’r ysgol fel un annibynnol byddai modd creu hwb i gymunedau cyfagos, a darparu gwasanaethau’r cyngor oddi yno.

Byddai modd clustnodi rhan o’r ysgol ar gyfer defnydd cyhoeddus a chymunedol, a fyddai’n lleihau’n capasiti a llefydd gwag presennol yr ysgol, tra yn creu adnodd cymunedol ar gyfer ardaloedd Ponterwyd, Pontarfynach a’r ardal ehangach.

4. A oes gennych unrhyw bryderon am effaith y cynnig i gau Ysgol Syr John Rhys ar unrhyw un o’r canlynol:

☐ y Gymuned

☐ Pobl â nodweddion gwarchodedig h.y. *oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol*

☐ Arall: Nodwch os gwelwch yn dda ___________________

Rhowch fanylion pellach isod:

Dydy'r cyngor ddim wedi ystyried yn llawn effaith cau yr ysgol ar y gymuned. Yr ysgol yw’r unig leoliad ar gyfer digwyddiadau'r gymuned - o gyfarfodydd i ymarferion côr wythnosol a digwyddiadau cymunedol fel ffeiriau haf a Nadolig.

Byddai colli'r ysgol yn golygu nad oes lleoliad gan nifer o grwpiau a digwyddiadau felly byddai'r gymuned yn debygol iawn o ddirywio.

Ar ben hynny, heb ysgol yn y gymuned byddai teuluoedd yn llai tebygol o aros neu symud i’r ardal er mwyn magu plant. Byddai hynny yn ei dro yn golygu y bydd y gymuned yn debygol o ddirywio.

Mae dros 80% o ddisgyblion presennol yr ysgol yn byw o fewn milltir, a disgyblion eraill yn byw o fewn pedair milltir i'r ysgol. Mae'n amlwg bod cysylltiad cryf â'r gymuned gan y rhieni a'r disgyblion.

Mae'r ymgynghoriad yn dweud sawl gwaith bod posibilrwydd o greu Hwb Cymunedol ar safle’r ysgol gyfredol - mae gan Ponterwyd hwb cymunedol eisoes, yr ysgol yw hi. Mae'n cael ei defnyddio fel adnodd cymunedol gan yr holl gymuned. Mae'r cyngor yn cynnig tynnu'r hwb hwnnw fel ag y mae o'r gymuned, ac yn disgwyl i'r gymuned ail-sefydlu un arall ar yr union leoliad heb gefnogaeth ddigonol.

Mae nifer o gamau i liniaru effaith colli’r ysgol yn amherthnasol gan na fyddent o gymorth i fudiadau, grwpiau na digwyddiadau sy'n defnyddio'r ysgol os nad oes adeilad ar gael iddynt a chymuned i fod yn rhan ohoni.

Yn eu mysg mae:

*“Cynyddu darpariaeth ac ymwneud CERED â’r ardal gan weithio gyda’r gymuned i adnabod gweithgareddau cymdeithasol i hybu defnydd y Gymraeg”*

Fydd hyn o ddim cymorth i gymuned sydd eisoes yn trefnu digwyddiadau trwy’r Gymraeg ond heb leoliad cymunedol.

*“Gwasanaeth Ieuenctid i drafod gyda mudiadau yr Urdd a CFfI i ystyried cyfleoedd posib i ymwneud gyda phlant a phobl ifanc yr ardal”*

Mae clwb CFfI Trisant eisoes yn gwasanaethu’r ardal ac yn defnyddio Ysgol Syr John Rhys yn achlysurol; a chlwb yr Urdd yn cael ei gynnal yn yr ysgol. Byddai cau’r lleoliad maen nhw’n ei ddefnyddio yn atal y gweithgareddau presennol felly.

Mae nodi y bydd effaith niwtral i adnoddau cymunedol eraill o gau Ysgol Syr John Rhys yn amherthnasol gan mai'r ysgol yw adnodd pennaf y gymuned a'r unig fan cyfarfod yno. Y rheswm bod yr effaith yn niwtral yw nad oes adnoddau eraill i gael effaith arnyn nhw.

5. Yn unol â Safonau'r Gymraeg mae’n ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai’r cynnig hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?
b. Sut ydych chi'n credu y gallai'r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effaith positif neu mwy positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Sut ydych chi’n credu y gallai’r cynnig hwn gael ei lunio neu ei addasu fel na fyddai’n cael effeithiau andwyol neu’n cael effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Nid ydym yn cytuno na fyddai effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ac na fyddai effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg i’r dyfodol o gau Ysgol Syr John Rhys. Er bod nifer o grwpiau a chymdeithasau yn y gymuned ar hyn o bryd, o dynnu ysgol o’r gymuned mae'n llai tebygol y bydd teuluoedd yn aros yn yr ardal er mwyn magu plant, fyddai'n golygu bod llai o bobl i fod yn rhan o'r grwpiau a chymdeithasau nawr ac at y dyfodol.

Ar bapur, dydy trosglwyddo disgyblion o un ysgol Gymraeg i un arall ddim yn effeithio ar y Gymraeg, ond dydy ysgolion na chymunedau ddim yn bodoli ar bapur yn unig.

Dyna pam y credwn fod angen asesiad o effaith cau ysgol ar gymunedau amrywiol y sir.

Mae degau o ysgolion wedi eu cau yn ystod y ddwy ddegawd ddiwetha ond ni fu asesiad o effaith ar unrhyw un o’r cymunedau hynny yn y blynyddoedd yn syth wedi iddi gau na dros gyfnod hirach.

Gofynnwn i chi gynnal asesiad o effaith cau ysgolion cynradd mewn ardaloedd

amrywiol ar draws y sir, ac ystyried:

- A barhaodd plant mewn addysg Gymraeg wrth drosglwyddo i'w hysgol newydd
- I ba ysgol uwchradd oedd disgyblion yn tueddu i fynd o'r ysgol a gaewyd, ac i ba ysgol uwchradd aeth y disgyblion o'u hysgol newydd
- I ba ysgol aeth plant yr ysgol a gaewyd - ai i'r ysgol yr oedd y cyngor yn bwriadu iddyn nhw fynd, neu i ysgol arall, a pham i ddisgyblion aeth i ysgol arall ddewis gwneud hynny?
- Ydy'r gymuned a gollodd ei hysgol yn hyfyw o hyd - oes yr un nifer o grwpiau cymunedol yn dal i fodoli ac yn weithgar o hyd ac oes digwyddiadau cymunedol yn parhau os oedden nhw'n cael eu cynnal?
- A fu dirywiad i'r Gymraeg yn ôl canlyniadau'r Cyfrifiad dilynol, ac os felly, faint?
- Ydy demograffeg y gymuned wedi newid, ydy teuluoedd yn dal i fyw yn a symud i'r ardal
- Effaith cau ysgol ar les a datblygiad plant
- Beth sydd wedi digwydd i safle'r ysgol a beth yw effaith hynny ar y gymuned

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

A hoffech chi gael gwybod am gyhoeddiad yr Adroddiad Ymgynghori?

X Ie ☐ Na

Os oes, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post:

bethan@cymdeithas.cymru

Diolch am gwblhau'r ffurflen ymateb

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u cwblhau i'r cyfeiriad canlynol, i gyrraedd erbyn **3 Rhagfyr 2024** fan bellaf neu eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost isod.

Prif Swyddog Addysg,

Gwasanaeth

Ysgolion, Ail Lawr,

Canolfan Rheidol,

Rhodfa Padarn,

Llanbadarn Fawr,

Aberystwyth,

SY23 3UE

E-bost: adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk